



Ein cyf / Our ref: MA-L/LG/0148/15

William Graham AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17

Tachwedd 2015

Annwyl William

Rwy'n deall bod y Pwyllgor Busnes wedi ailgyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles a Gwaith, er mwyn i'r Pwyllgor Menter a Busnes graffu arno.

Fel y bydd y Pwyllgor yn nodi, mae'r Memorandwm yn ymwneud â Chymal 5 o'r Bil Diwygio Lles a Gwaith (Bil 69 Tŷ'r Arglwyddi, ar ôl cael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin), sy'n nodi cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) i ddiwygio Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU yn sylfaenol, fel na fydd bellach yn rhoi sylw i dlodi plant. Mae Cymal 5 o'r Bil yn nodi'r cynigion i newid enw'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant i fod yn 'Gomisiwn Symudedd Cymdeithasol'. Mae Cymal 6 o'r Bil yn gwneud gwelliannau sy'n gysylltiedig â Deddf Tlodi Plant 2010. Mae'r Bil wedi cwblhau ei daith drwy'r Tŷ cyntaf (Tŷ'r Cyffredin), a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 28 Hydref.

Mae'r Memorandwm yn ymdrin â dwy ddarpariaeth yn unig sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, gan mai'r rhain yw'r unig ddarpariaethau yr ydym yn ystyried eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac sy'n parhau i fod yn y Bil yn dilyn y Cyfnod Adrodd yn y Tŷ cyntaf. Diben y llythyr hwn a'r atodiadau yw egluro'r hyn y mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Memorandwm yn eu golygu o fewn cyd-destun pecyn o welliannau i ddarpariaethau'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a gafodd eu gwneud yn ôl fy nghais.

Mae'r penderfyniad i newid cylch gwaith y Comisiwn wedi'i wneud ochr yn ochr â phenderfyniadau eraill gan Lywodraeth y DU, a chanlyniad y penderfyniad hwnnw fydd llai o sylw ar dlodi plant. Ar 1 Gorffennaf eleni, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei phenderfyniad i beidio ag anelu am y targed i gael gwared ar dlodi plant erbyn 2020, a oedd yn sail i Ddeddf Tlodi Plant 2010. Roedd yr Adran wedi cyhoeddi hefyd ei bwriad i beidio â defnyddio incwm cymharol fel dull i fesur tlodi ac i adrodd ar ddulliau mesur sy'n rhoi sylw i fod heb waith a chyrhaeddiad addysgol yn lle.

Ymatebais i'r cyhoeddiad hwnnw ar 13 Gorffennaf pan gyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig i hysbysu'r aelodau am fwriad Llywodraeth Cymru i barhau i anelu am y nod i gael gwared ar dlodi plant erbyn 2020. Ategais hefyd ein bod yn parhau i ddefnyddio incwm cymharol fel dull i fesur tlodi er mwyn asesu a ydym yn cyflawni'r nod hwnnw, sy'n un o gyfres o ddangosyddion ar gyfer tlodi yr ydym eisoes yn eu defnyddio i fesur canlyniadau'r aelwydydd hynny sydd ar incwm isel. Mae copi o'm Datganiad Ysgrifenedig yn Atodiad A.

Rhoddais ystyriaeth fanwl i'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil pan gafodd y Bil ei gyflwyno, a cheir esboniad llawn o'm hystyriaeth, gan gynnwys manylion am y gwelliannau y gofynnais amdanynt yn Atodiad B. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Roeddwn yn cytuno y dylai'r gofyniad bod rhaid i'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu ei safbwyntiau ar hynt y gwaith a wnaed o ran gwella symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig aros yn y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon, felly, yn un o'r darpariaethau yr wyf yn ystyried ei bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac yr wyf yn ceisio cael cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar ei chyfer.
- Gofynnais i'r ddarpariaeth a gafodd ei chynnwys yn wreiddiol, a oedd yn gofyn i adroddiad y Comisiwn ddisgrifio'r mesurau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â strategaeth ar gyfer Cymru, gael ei diddymu. Roedd Llywodraeth y DU wedi cytuno ar hynny, a chafodd y ddarpariaeth honno ei diddymu drwy welliant yn ystod y Cyfnod Adrodd yn y Tŷ cyntaf. Gan fod y ddarpariaeth honno wedi'i dileu o'r Bil erbyn hyn, nid yw bellach yn berthnasol, ac nid yw wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.
- Gofynnais am welliant i'r ddarpariaeth yn y Bil pan gafodd y Bil ei gyflwyno. Byddai hynny wedi caniatáu i un o Weinidogion y Goron gyfarwyddo'r Comisiwn i ymgymryd â gwaith sy'n berthnasol i wella symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Cytunodd Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd, fel na fyddai'r Comisiwn yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw yng Nghymru. Gan fod y ddarpariaeth honno wedi'i dileu o'r Bil, nid yw bellach yn berthnasol, ac felly nid yw wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.
- Fel canlyniad i'r ffaith fod sylw'r Comisiwn wedi newid o roi sylw i dlodi plant, roeddwn wedi ceisio cael gwelliant i ddiddymu swyddogaeth Gweinidogion Cymru i benodi Comisiynydd ar gyfer Cymru i'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. Hon yw'r ail ddarpariaeth y cyfeirir ati yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Mae'r gwelliannau hyn, fel sydd wedi'i hegluro ymhellach yn Atodiad B, yn adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi sylw i fater tlodi plant, a'r ffaith bod y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol yn rhoi mwy o sylw i symudedd cymdeithasol yn Lloegr. Roedd Llywodraeth y DU wedi cytuno ar y gwelliannau hyn a gafodd eu cyflwyno ar 21 Hydref, ac yn dilyn hynny cawsant eu cytuno gan Senedd y DU a'u cynnwys yn y Bil. Cytunwyd ar welliannau tebyg mewn perthynas â'r Alban.

Os bydd arnoch angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Lesley Griffiths AC / AM

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Ar 1 Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Ddatganiad Llafar ar dlodi plant. Ynndo, datganwyd bwriad Llywodraeth y DU i ollwng ei tharged i ddileu tlodi plant erbyn 2020, sef sail Deddf Tlodi Plant 2010 a chyflwyno deddfwriaeth i newid y ffordd y mae'n mesur tlodi plant ar hyn o bryd. Bydd hynny'n golygu rhoi'r gorau i fesur tlodi plant trwy fesur incwm ymharol. Mae'r dull hwnnw'n diffinio tlodi plant fel canran y plant sy'n byw ar aelwydydd sy'n ennill 60% yn llai na'r incwm canolrif. Yn hytrach, maent yn bwriadu cyflwyno dyletswydd statudol newydd i adrodd ar fesurau sy'n ymdrin â diweithdra a chyrhaeddiad addysgol. Law yn llaw â'r mesurau newydd hyn, byddant yn datblygu hefyd ystod o ddangosyddion eraill i fesur hynt ymdrechion yn erbyn achosion gwaelodol tlodi. Bydd y dangosyddion hynny'n cynnwys teuluoedd sy'n chwalu, dyled broblematic a dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol.

Er mai targed i Lywodraeth y DU yw'r targed yn y Ddeddf Tlodi Plant, pwrpas y Datganiad hwn yw cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i barhau â'i uchelgais hi i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r mesur tlodi cymharol i asesu a ydym yn gwireddu'r uchelgais, hynny fel rhan o'r gyfres o ddangosyddion tlodi rydym eisoes yn ei defnyddio i fesur canlyniadau aelwydydd isel eu hincwm, fel rhan o'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig. Yn eu plith y mae dangosyddion ynghylch nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith a chyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim. Nid oes gennym unrhyw fwriad i newid Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sef y mesur sy'n gosod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trechu tlodi plant yng Nghymru.

Er mor aruthrol o fawr yw her yr uchelgais i ddileu tlodi plant, dangosodd ein hymgyngoriad diweddar ar ein Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig bod yr uchelgais honno'n bwysig iawn o ran cynnal y sylw ar yr uchelgais hon. Mae'n cynnal y momentwm, mae'n blaenoriaethu'r pwnc ac yn rhoi neges glir a chryf i bob partner a rhanddeiliad allanol y dylai trechu tlodi plant fod yn nod allweddol i bob un ohonom. Mae angen i bawb ganolbwyntio eu hymdrechion ar helpu'r rheini sy'n byw ar aelwydydd isel eu hincwm i sicrhau canlyniadau gwell.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau mawr sy'n ein hwynebu wrth geisio gwireddu'r uchelgais hon. Mae astudiaethau o effeithiau'r diwygiadau i'r system les yng Nghymru yn parhau i ddangos eu bod yn cael effaith anghymarus ar y rheini sydd yng nghyffiniau'r llinell dlodi ac yn enwedig ar aelwydydd â phlant. Er gwaetha'r cefndir hwn, rydym yn dal yn ymroddedig i wneud popeth a allwn gyda'r cyfryngau sydd ar gael. Rhoddodd ein Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig ddau amcan newydd inni o ran trechu tlodi plant yng Nghymru. Y cyntaf yw defnyddio pob cyfrwng sydd ar gael inni i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac sy'n lleihau tlodi mewn gwaith. Yr ail yw helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwyd trwy gynnig cyngor ar arian a dyledion iddynt, gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (pan fydd aelwydydd yn talu'n gymharol fwy am eu nwyddau a'u gwasanaethau) a gweithredu i leihau effeithiau'r diwygiadau i'r system les. Yr un pryd, byddwn yn parhau â'n ffocws ar leihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi, ar wella sgiliau er mwyn i rieni a phobl ifanc allu cael swyddi sy'n talu'n dda, ac ar leihau'r anghydraddoldebau yng nghanlyniadau iechyd, addysgol ac economaidd y rheini sy'n byw mewn tlodi.

Trwy ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, byddwn yn parhau i daclo achosion gwaelodol tlodi, gan roi sylw arbennig ar fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, gwella cyrhaeddiad addysgol a helpu pobl i gael gwaith. Mae'r holl dargedau yn ein Cynllun Gweithredu yn sbarduno cynnydd ac rydym wedi ymrwmo'n llwyr i gyflawni pob un.

Fel y dywed y Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig, byddwn yn parhau i weithio i ddod i ddeall yn well beth sydd ei angen i newid y prif ddangosydd tlodi plant. Eir ymlaen â'r gwaith i asesu beth sydd angen ei wneud ac erbyn pryd, pe bawn am ddileu tlodi plant. Byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn i ddatblygu canlyniadau a cherrig milltir cyfamserol. Bydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithio'n hanfodol i lwyddiant ein hymdrechion i drechu tlodi plant.

WELFARE REFORM AND WORK BILL

Consideration by Welsh Government of Provisions in Relation to the Social Mobility Commission

Clause 5: Social Mobility Commission

A1C Promotion of social mobility, advice and reports

A1C(4): The Commission must publish a report setting out its views on the progress made towards improving social mobility in the United Kingdom.

- **Agreed:** This function should include Wales.

While I remain deeply concerned at the UK Government's shift in focus away from child poverty, I recognise the value of the Commission publishing its annual State of the Nation Report on social mobility. In previous annual reports, the Commission has included specific sections on work being taken forward to tackle child poverty and improve social mobility in the devolved administrations.

Reports have included observations and recommendations for the different countries of the UK, including Wales, which is something we have found useful in the past. The report also draws comparison between the countries of the UK and provides us with examples of good practice, enabling us to learn from one another.

The report does not just consider the work of Governments. It also looks at, for example, the role which non-governmental bodies such as business and the professions can play in improving outcomes for low income families. I welcome this broad focus which identifies cross-boundary issues which have an impact on social mobility in all the countries of the UK. I have, therefore, asked officials in the Welsh Government's Tackling Poverty Division to remain engaged with the Commission on this aspect of its work.

A1C(5): The report must also describe (b) the measures taken by the Welsh Ministers in accordance with a Welsh strategy.

- **Amendment:** Reference to the Commission describing the measures taken by Welsh Ministers in accordance with a Welsh Strategy to be removed.

Background: The Bill as originally drafted proposed the Commission's annual State of the Nation report on social mobility in the UK, should describe the measures taken by Welsh Ministers in accordance with a Welsh Strategy.

The Welsh Government does not have a social mobility strategy for the Commission to report against and it would not be appropriate for the Commission to use our Child Poverty Strategy as a basis for reporting on what the Welsh Government is doing to promote social mobility in Wales. I therefore requested an amendment to the Bill which has resulted in the removal of the reference to the State of the Nation report describing the measures taken by Welsh Ministers in accordance with a Welsh strategy.

The Welsh Government is obligated by legislation to undertake its own analysis of its child poverty policies and programmes. In line with the requirements of the Children and Families (Wales) Measure 2010, the Welsh Government will continue to report every three years, providing an assessment of progress made towards achieving the objectives contained in the Child Poverty Strategy for contributing to the eradication of child poverty.

Clause 6(6) “Welsh Strategy” means a strategy prepared by the Welsh Ministers under Part 1 of the Children and Families (Wales) Measure 2010.

- **Amendment:** As a consequence of the amendment to A1C(5), the description of what a ‘Welsh strategy’ means, which is set out in clause 6(6), should also be deleted.

A1C(10): A Minister of the Crown may direct the Commission to carry out any other activity relating to improving social mobility in the United Kingdom.

- **Amendment:** The Commission should not carry out activity relating to improving social mobility in Wales.

Background: The role of improving social mobility in Wales is a devolved matter as the area of ‘social mobility’ is within the legislative competence of the National Assembly for Wales. I therefore requested the Commission should not carry out activity relating to improving social mobility in Wales and this reference has been removed.

Clause 6: Other amendments to the Child Poverty Act 2010

Paragraph 1(1)(c) of Schedule 1: The members of the Commission are to be (c) a member appointed by the Welsh Ministers.

- **Amendment:** This paragraph should be omitted and the term in office of the Commissioner for Wales should come to an end when the Welfare Reform and Work Act is passed and the changes to the Commission take effect.

Background: The appointment of the Chief Executive of Children in Wales to the post of Commissioner for Wales reflected the Welsh Government's priority of tackling child poverty.

The decision by the UK Government to move away from a focus on child poverty does not fit with the priorities of the Welsh Government. I therefore requested the term in office of the Commissioner for Wales should come to an end when the Welfare Reform and Work Act is passed and the changes to the Commission take effect. The UK Government agreed to table an amendment to the Bill, to amend the Child Poverty Act so that there will no longer be a requirement for a member of the Commission to be appointed by Welsh Ministers.

My decision to withdraw the Commissioner for Wales was not taken lightly. The Commissioner was well qualified to act as a spokesperson for child poverty and to present the work the Welsh Government is taking forward to address this. She will remain engaged with our Tackling Poverty External Advisory Group through the policy sessions they hold on an ongoing basis. Her views and opinions, as well as her extensive knowledge of child poverty, are very much valued.

The Welsh Government is not alone in taking this action. Reducing child poverty is also a central priority of the Scottish Government and the Scottish Minister, Alex Neil, felt the child poverty element of the Commission's work was key to its remit. As a result of the changes to the Commission, the Scottish Minister has also taken the decision to withdraw their Commissioner for Scotland.